

*Patrwm cyflwyno O fis Chwefror i fis Medi ac o fis Hydref i fis Mehefin*

*Disgrifiad o'r modiwl*

Mae'r modiwl rhagarweiniol allweddol hwn yn darparu sail eang a diddorol ar gyfer mathemateg ar lefel prifysgol. Mae'r modiwl yn addysgu'r syniadau a'r technegau hanfodol sy'n ategu astudio mathemateg a phynciau mathemategol megis ffiseg, peirianeg, cyfrifiadureg ac economeg ar lefel prifysgol. Mae canran sylweddol o fyfyrwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau mewn pynciau ar wahân i fathemateg. Maent yn astudio amrywiaeth o bynciau sylfaenol – gan gynnwys calcwlws, fectorau, matricesau a rhifau cymhlyg – ac yn defnyddio meddalwedd fathemategol i ddatrys problemau. Maent hefyd yn datblygu eu sgiliau o ran cyfleu canlyniadau a diffinio problemau. Mae ein gwefan MathsChoices (mathschoices.open.ac.uk) yn cynnwys cwisiau, deunyddiau enghreifftiol a chyngor i fyfyrwyr sy'n ystyried astudio'r modiwl hwn. .

*Manyleb y person*

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn ar y cyd â'r [fanyleb gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb person gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- gradd dda (neu gymhwyster cyfatebol) ym maes mathemateg
- y gallu i gefnogi'r broses o ddatblygu sgiliau mathemategol a strategaethau astudio myfyrwyr â galluoedd, diddordebau a dyheadau amrywiol
- y gallu i gefnogi myfyrwyr sy'n gweithio tuag at gymwysterau ym maes mathemateg a disgyblaethau ar wahân i fathemateg
- y gallu i ddisgrifio pynciau cymhleth mewn iaith syml er mwyn arwain a hwyluso'r dysgu
- diddordeb mewn helpu myfyrwyr i ddeall cymwysiadau mathemateg
- diddordeb mewn defnyddio pecyn algebra cyfrifiadurol y modiwl i addysgu
  
- y parodrwydd i ddefnyddio cyfleusterau e-ddysgu, megis:
  - gwefan y modiwl, a gwefannau eraill y Brifysgol, i lawrlwytho deunyddiau hanfodol a chael gafael ar wybodaeth arall
  - systemau'r Brifysgol er mwyn monitro cynnydd y myfyrwyr
  - e-bost a fforymau'r Brifysgol er mwyn cyfathrebu â'r myfyrwyr, tiwtoriaid a staff eraill mewn modd anghydamserol
  - tiwtorialau ar-lein, lle y bo'n briodol, yn unol â strategaeth diwtora'r modiwl
  - marcio aseiniadau a gyflwynir yn electronig, a gaiff eu marcio gan diwtoriaid, ar y sgrin

Byddai'n fanteisiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- profiad o addysgu pynciau mathemateg ar y lefel hon i oedolion neu fyfyrwyr o amrywiaeth eang o gefndiroedd addysgol
- profiad o ddefnyddio pecyn algebra cyfrifiadurol y modiwl neu adnodd cyfatebol

*Gwybodaeth ychwanegol*

Bydd y modiwl hwn yn cynnwys arholiad a gaiff ei farcio gan gyfrifiadur yn ogystal ag aseiniadau a gaiff eu marcio gan diwtoriaid ac a gaiff eu marcio gan gyfrifiadur.

Gan y bydd myfyrwyr ar y modiwl hwn yn gallu dewis cyflwyno eu haseiniadau a gaiff eu marcio gan diwtoriaid (TMA) yn electronig drwy'r system TMA/EMA ar-lein, bydd gofyn i chi farcio a rhoi adborth ar y TMA a gyflwynir yn electronig a dychwelyd y gwaith a farciwyd fel ffeil electronig, ar y ffurf ragnodedig, i'r gwasanaeth TMA/EMA ar-lein. Efallai y bydd angen i chi hefyd farcio aseiniadau papur a gaiff eu marcio gan diwtoriaid (TMA).

Os bydd y broses benodi yn cynnwys ymarfer marcio electronig, rhoddir rhywfaint o arweiniad ar hyn. Bydd rhagor o wybodaeth a chyngor ar gael os cewch eich penodi i'r rôl.

Mae'n bosibl y bydd union natur y cyfleusterau e-ddysgu a systemau'r Brifysgol i fonitro cynnydd myfyrwyr a delio ag aseiniadau a gaiff eu marcio gan diwtoriaid (TMA) yn datblygu yn y dyfodol, a

bydd angen i chi fod yn barod i addasu yn unol â hynny. Noder bod disgwyl i diwtoriaid ddefnyddio eu cyfarpar eu hunain ar gyfer pob agwedd ar e-ddysgu yn unol â pholisi cyfredol y Brifysgol.

*Manylion sy'n ymwneud â'r modiwl – gallwch gael eglurhad llawn ar y wefan*

Credydau a ddyfernir i'r myfyriwr am gwblhau modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	4
Dull cyflwyno aseiniadau:	1b
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	4
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	4.5

*Gallai fod cyfleoedd i Ddarlithwyr Cyswllt ymgymryd â gwaith asesu cysylltiedig y ceir tâl amdano – byddwn yn cysylltu â chi ar wahân os yw hyn yn berthnasol.*